# Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 31AIN MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## IS-BWYLLGOR TRAFNDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

### Aelodau a phleidlais

### Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Dafydd Rhys Thomas | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Goronwy Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Barry Mellor | Cyngor Sir Ddinbych |
| Glyn Banks | Cyngor Sir y Fflint |
| David Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

| | |
|---|---|
| Angela Jones | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Ben George | Trafnidiaeth Cymru |

### Prif Swyddogion

| | |
|---|---|
| Huw Percy | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Wyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Geraint Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Emlyn Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Katie Wilby | Cyngor Sir y Fflint |
| Darren Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| David Hole | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL** 7 - 19

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC) ac David Hole (Arweinydd Gweithredu Rhaglen y CBC) i gyflwyno'r adroddiad.

**6. DIWEDDARIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL A'R BERTHYNAS GYDA'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL** 20 - 22

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC) ac Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol) i gyflwyno'r adroddiad.

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**16/12/2024**

**<u>Yn bresennol:</u>**

**Aelodau â Phleidlais** - Y Cynghorwyr:- Dafydd Rhys Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn), Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), Glyn Banks (Cyngor Sir y Fflint) a David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) –** Angela Jones (Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion** – Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint) a Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion yn bresennol** - Alwen Williams (Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol** – Allan Pitt (ARUP) ac Adam Graham (Trafnidiaeth Cymru).

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2024/25.**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd)
- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)
- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid)
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 fel rhai cywir.

**6. BLAEN GYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

- **I gytuno ar y Blaen Gynllun Gwaith.**
- **Cadarnhau gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amserlennu gwaith, yn amodol ar ddod â'r Cynllun i gyfarfod dilynol yr Is-bwyllgor i'w gytuno.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Blaen Gynllun Gwaith yn nodi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2025, ac mae'n cyd-fynd ag amserlennu Llywodraeth Cymru yn ol yr angen, a gyda dyddiadau cyfarfod y CBC.

**TRAFODAETH**

Tywyswyd yr aelodau drwy Blaen Gynllun gwaith yr Is-bwyllgor, gan egluro ei fod yn amlinellu'r eitemau bydd yn cael eu cyflwyni o'r Is-bwyllgor dros y flwyddyn nesaf. Eglurwyd bod y Blaen Gynllun hwn yn cymryd i ystyriaeth yr angen i dderbyn cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor ar nifer o Adroddiadau tra hefyd yn ystyriol i newidiadau posib i amserlenni. Ychwanegwyd bod y Blaen Gynllun gwaith wedi cael ei lunio gydag amserlen Llywodraeth Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd mewn golwg.

Cadarnhawyd nad yw'r Blaen Gynllun hwn yn derfynol ac mae'n bosib bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn cyfarch anghenion anrhagweladwy.

Ystyriwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd yr Is-bwyllgor fel cyfarfodydd aml-leoliad

**7. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU – ACHOS DROS NEWID A CHYNLLUN YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r Achos dros Newid gan gynnwys y Cynllun Ymgysylltu a Rhanddeiliaid fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Gogledd yn amodol ar argymell i Fwrdd Cydbwyllgor Corfforedig Y Gogledd eu bod yn gofyn i bob Cabinet priodol edrych ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fanylach ac ymateb yn ôl.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn trosglwyddo'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau trafnidiaeth mewn perthynas ag ardal pob un o'i chynghorau cyfansoddol i'r CBC. Mae datblygu a gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol a weithredir gan y CBC drwy ei is-bwyllgor, gyda chefnogaeth y Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (Fersiwn 2) 2023. Mae'r Achos dros Newid gan gynnwys y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn rhan allweddol o'r broses o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth y Gogledd.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod y Cynllun wedi cael i gyflwyno i’r Is-bwyllgor yng nghyfarfod 1 Hydref 2024. Diolchwyd am y gwaith cydweithio clos gyda Trafnidiaeth Cymru ac ARUP i ddatblygu’r dogfennau.

Argymhellwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig Y Gogledd eu bod yn gofyn i bob Cabinet priodol edrych ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fanylach ac ymateb yn ôl.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:50 a daeth i ben am 15:10.

________________________________________

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

31 Mawrth, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Chwarterol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC<br>David Hole, Arweinydd Gweithredu Rhaglen CBC |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried yr adroddiad chwarterol fel sy'n ofynnol ymhellach i'r Cylch Gorchwyl.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Ystyried yr adroddiad a gwneud argymhellion os oes angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod yr is-bwyllgor ar 1 Hydref 2024. Mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod ar ddau achlysur, ac ystyrir ei bod yn briodol adolygu'r gwaith a wnaed a sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle i ddiwallu datblygiadau yn y dyfodol.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi y bydd yr “Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn paratoi adroddiad chwarterol ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

- Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol
- Perfformiad Ariannol y Pwyllgor
- Datblygiadau sydd ar y gweill”

Cyd-destun adroddiad o'r fath yw sicrhau bod gwaith yr is-bwyllgor yn agored ac yn dryloyw a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyfathrebu'n glir. Mae'r ymarferiad ymgynghori presennol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi codi ymwybyddiaeth o waith y Cyd-bwyllgor ac yn benodol ei bwerau mewn perthynas â datblygu a chyflwyno polisïau trafnidiaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

4.2. Mae cyfle hefyd i fonitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen, a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.3. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd adroddiadau chwarterol yn ffurfio rhan o brotocol craffu y cytunwyd arno a bydd ar ffurf fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.4. Fe wnaeth yr is-bwyllgor gyfarfod ar 1 Hydref 2024 ac mae wedi cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith i ystyried y gwaith datblygu ynglŷn â llunio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ystyried y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n esblygu, ac ymdrin yn benodol â'r adroddiad cwmpasu arfarniad Lles Integredig a'r Achos dros Newid gydag argymhellion i'w cymeradwyo yn mynd i'r Cyd-bwyllgor. Mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni mewn amserlen byr sydd wedi arwain at lansio'r ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn llwyddiannus ym mis Ionawr. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor wedi elwa o gyfarfod yn anffurfiol wyneb yn wyneb i ddatblygu gwaith traws-ranbarthol, ac i archwilio sgiliau a phrofiad a rennir i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru. Bydd y croesffrwythloni rhanbarthol hwn o wybodaeth a sgiliau yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer gwaith darparu a monitro yn y dyfodol.

## 5. ADRODDIAD CHWARTEROL

### 5.1. Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol/diweddariad

5.1.1 Argymhellodd yr is-bwyllgor y dylai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor, a chadarnhawyd hyn, a phenderfynwyd mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar 17 Ionawr 2025. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Ionawr ac mae'n dod i ben am hanner nos 14 Ebrill 2025. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan ARUP ar ran y Cyd-bwyllgor ac mae'n cynnwys adnoddau digidol yn ogystal ag adnoddau corfforol.

5.1.2 Mae gwefan Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnwys safle pwrpasol ar gyfer cael mynediad i wybodaeth am yr ymgynghoriad ac mae'n caniatáu i bobl ddarllen neu lawrlwytho copïau o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, holiadur a dogfen Cwestiynau Cyffredin. Mae'n rhoi manylion ynghylch sut y gall pobl ddweud eu dweud ac mae'n darparu dolen i wefan ymgynghori Arup Virtual Engage.

Crëwyd amgylchedd digidol ar ffurf neuadd bentref (Arup Virtual Engage) i arddangos y dogfennau ymgynghori a hwyluso ymatebion i holiadur ar-lein. Gellir ymweld â'r neuadd bentref digidol trwy'r ddolen yma.

5.1.3 Ar adeg drafftio'r adroddiad, cafwyd oddeutu 3,700 o ymwelwyr, gyda llawer yn dychwelyd fwy nag unwaith. Hyd yn hyn, mae mwy nag 80 o ymatebion wedi'u derbyn, gan ystod o unigolion a sefydliadau. Mae data'n cael ei gasglu drwy ymatebion ynghylch ble mae ymatebwyr yn byw, eu grŵp oedran, eu rhyw, ac a ydynt mewn addysg llawn amser neu gyflogaeth. Bydd hyn yn helpu i ddeall pwy sy'n dweud eu dweud ac yn helpu i lunio gwersi i'w dysgu ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

O ran ymatebion, mae'r teimlad cyffredinol yn gefnogol o'r cynlluniau a'r cynigion, gydag ystod eang o faterion yn cael eu codi, gan rychwantu dulliau trafnidiaeth, yn ogystal â sylwadau mewn perthynas â materion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol a masnachol.

Mewn ymateb i rai ymatebion (er eu bod yn gyfyngedig) a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a gafodd eu dwyn i sylw'r swyddog sy'n cyfeirio at natur hir, gymhleth a thechnegol y dogfennau ymgynghori, mae fersiwn 'Hawdd i'w Ddarllen' o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i gyhoeddi. Ychwanegwyd hyn at y dogfennau ymgynghori, a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu mwy o bobl i ymgysylltu a dweud eu dweud.

Hyd yn hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori mae nifer o negeseuon e-bost wedi cael eu derbyn drwy'r cyfeiriad e-bost ymgynghori pwrpasol (northwalesregionaltransportplan@arup.com) gan ystod o unigolion a sefydliadau. Mae'r rhain wedi cynnwys ymatebion, ceisiadau am gopïau papur, a chwestiynau.

Mae'r tîm hefyd wedi derbyn galwadau i'n gwasanaeth ffôn dwyieithog (01172 405 350) sydd wedi cynnwys ceisiadau am gopïau papur yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r gwasanaeth post gyda chyfeiriad post am ddim (FREEPOST UGC / ANW) yn parhau i fod yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond mae'n caniatáu i unrhyw un gyflwyno ymateb ar bapur heb gostau postio. Mae'r holl fformatau ar gyfer ymatebion yn cael eu profi'n rheolaidd gan Arup.

5.1.4 Mae timau cyfathrebu awdurdodau lleol wedi cefnogi'r gwaith o hyrwyddo ymgynghoriad cyhoeddus y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn amrywiaeth o ffyrdd i annog cyfranogiad.

Yn fewnol, mae sianeli cyfathrebu wedi cynnwys cylchredeg manylion o fewn:

- cyfarfodydd perthnasol gydag Aelodau
- rhai cyfarfodydd llawn y cyngor
- safleoedd mewnrwyd staff
- bwletinau newyddion staff ac Aelodau
- negeseuon e-bost i staff
- grŵp Facebook Staff

Yn allanol, mae cymorth cyfathrebu wedi cynnwys cynghorau yn:


- gosod datganiad i'r wasg am yr ymgynghoriad ar eu gwefannau eu hunain
- dosbarthu manylion i gysylltiadau yn y cyfryngau
- rhannu negeseuon cyfryngau cymdeithasol Uchelgais Gogledd Cymru
- postio'n uniongyrchol ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol eu hunain
- rhannu manylion gyda chynghorau tref a grwpiau cymunedol

Mae rhai digwyddiadau wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu cynnal - lle mae'r awdurdodau'n credu y byddan nhw'n effeithiol. Hyd yma, mae Ynys Môn wedi cynnal dau ddigwyddiad, mae Sir y Fflint yn trefnu dau ddigwyddiad ym mis Ebrill, ac mae Wrecsam wedi cadarnhau bod digwyddiad yn cael ei drefnu.

5.1.4 Mae Arup yn parhau i brosesu a dadansoddi ymatebion. Byddant yn llunio Adroddiad Ymgynghori gan gynnwys sut y mae adborth wedi'i ystyried a llunio'r dogfennau terfynol. Bydd Arup yn ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion a sefydliadau partner fel Trafnidiaeth Cymru i ystyried ac ymateb i sylwadau fel bo'n briodol.

5.1.5 Rydym wedi datblygu map ffordd sy'n amlinellu cynllunio prosiectau a chamau llywodraethu allweddol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r map ffordd hwn wedi'i ddiwygio'n ddiweddar i ddiwygio dyddiad cymeradwyo Ysgrifennydd y Cabinet rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025:

## Llwybr yr RTP




**Cymeradwyaeth y Gweinidogion wedi symud i fis Medi*

### 5.2. Diweddariad ar y rhaglen waith a phrosiectau

5.2.1 Ar hyn o bryd, mae 268 o gynlluniau wedi'u halinio â phrosiectau mewn rhaglenni fel rhan o'n Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) drafft i'w gyflawni gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u nodi, eu harfarnu a'u blaenoriaethu i ddechrau i gategorïau uchel, canolig ac isel, dros gyfnodau tymor byr, canolig a hwy.

Bydd drafft y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn amodol ar adborth yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a fydd yn cael ei gwblhau ar 14 Ebrill 2025. Yn dilyn ymgynghoriad, gellir diwygio'r blaenoriaethu a bydd y rhestr derfynol o gynlluniau y cytunwyd arnynt yn cael eu symud ymlaen yn erbyn y cyllid sydd ar gael, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru (ond nid yn gyfyngedig iddo).

5.2.2 Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i ddogfennau ategol, gan gynnwys monitro'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, dechreuir ar werthusiad o raglenni, prosiectau a chynlluniau fel y nodir yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft, sydd hefyd yn destun yr ymgynghoriad cyfredol a'r newid posib. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd adroddiad monitro a gwerthuso yn erbyn y Cynllun yn swyddogaeth hanfodol i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth, a bydd diweddariad ar hyn yn cael ei ddarparu yn yr adolygiad nesaf ym mis Hydref 2025 ac wedi hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ledled Cymru ar y tebygolrwydd y bydd Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro a gwerthuso yn y dyfodol unwaith y bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu mabwysiadu. Bydd mwy o eglurder yn cael ei rannu unwaith y bydd yn hysbys.

### 5.3. Diweddariad ar raglenni a phrosiectau eraill sy'n cael eu cynllunio neu eu cyflawni gan eraill

5.3.1 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn y rhanbarth ar ddatblygu nifer o brosiectau i wella'r cynnig trafnidiaeth gynaliadwy ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn y sylfaen polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac yn y cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- Porth Wrecsam: Fel rhan o Bartneriaeth Porth Wrecsam, mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer canolfan drafnidiaeth integredig yng Ngorsaf Wrecsam Cyffredinol sy'n rhan allweddol o raglen adfywio ehangach.

- **Porth Bangor**: Datblygu cynigion i wella cerdded, beicio a mynediad cyhoeddus i orsaf Bangor a gwella amgylchedd yr orsaf.
- Porth Caergybi: Cynigion i wella amgylchedd yr orsaf a gwella mynediad cynaliadwy i'r orsaf a chyfleusterau'r porthladd, gan gynnwys gwell cysylltedd cerdded, beicio ac olwyno o ganol y dref ac ardaloedd preswyl a gwell darpariaeth bysiau.
- **Porth Caernarfon**: Archwilio opsiynau ar gyfer y ddynesfa ddwyreiniol i ganol y dref y gellir eu hwyluso trwy gael gwared ar y drosffordd neu'r maes parcio aml-lawr presennol.
- **Gwella Gwydnwch Menai**: Datblygu opsiynau i wella gwytnwch a dibynadwyedd Croesfan y Fenai.
- Nodi opsiynau ar gyfer gwella dewisiadau ar gyfer teithio i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth mawr gan gynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Stad Ddiwydiannol Wrecsam.
- Nodi opsiynau ar gyfer gwelliannau seilwaith bysiau ar draws y rhanbarth a fydd yn hwyluso gwell amser teithio a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwaith dichonoldeb sy'n ystyried gwasanaeth coetsis o'r dwyrain i'r gorllewin gyda'r bwriad o gyd-fynd â'r hyn a gynigir gan reilffyrdd a gwella cysylltedd trawsffiniol.

### Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru

5.3.2 Cafodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Burns, y dasg gan Lywodraeth Cymru i ddarparu argymhellion i wireddu system drafnidiaeth integredig ac aml-foddol gynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

Yn eu hadroddiad terfynol fe wnaethant 60 o argymhellion. Mae'r argymhellion hyn wedi dylanwadu'n gryf ar ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.

O'r 60 argymhelliad, ystyriwyd bod tri yn fwy priodol i'w gweithredu gan Lywodraeth Cymru ("Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu canllawiau NCT18", "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar ddatblygu strategaeth rheoli parcio", a "Rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi sut maent yn bwriadu rheoli a chynnal rhwydweithiau teithio llesol fel amod o dderbyn grantiau'r Gronfa Teithio Llesol"). Mae'r 57 arall naill ai wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu sydd wedi'u dal yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft lle maent yn ystyried cynllun neu raglen benodol.

Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ychwanegol hefyd yn edrych ar wella gwytnwch Croesfannau'r Fenai. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn y Dyheadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.

### Hunt-Medi - grŵp ymgynghorol datblygiad yn seiliedig ar le

5.3.3 Gyda chefnogaeth Comisiwn Dylunio Cymru, Ysgrifenyddiaeth swyddogion Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac aelodau Panel dethol, gweithiodd Arup i ddeall y rhwystrau i ddatblygu cynaliadwy a gwneud argymhellion ar gyfer ffyrdd gwell o weithio i sicrhau gwell canlyniadau i bawb yng Nghymru. Roedd ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr, gan gynnwys gyda Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn golygu bod Arup yn gwrando ar bobl oedd yn ymwneud â thrafnidiaeth, cynllunio, creu lleoedd a datblygu economaidd, gyda phrofiad ledled Cymru a thu hwnt. Canolbwyntiodd Arup ar nodi ffyrdd y gall Cymru wneud gwell defnydd o'r adnoddau presennol a dod o hyd i ffyrdd effeithlon a fydd yn helpu i sicrhau Cymru fwy ffyniannus, cyfartal

a gwyrddach. Mae argymhellion y Panel ynghylch cydweithio, cydlynu sgiliau, adnoddau a data a defnyddio dull yn seiliedig ar le i gyd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion gan ddefnyddio'r camau gweithredu fel yr awgrymwyd.

Mae'r argymhellion hyn gan y Panel wedi dylanwadu'n gryf ar ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Er enghraifft:

*"Mae cyfle cryf ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu yng Ngogledd Cymru, gyda thrafnidiaeth, defnydd tir, a thwf economaidd, oll yn dod at ei gilydd fel diagram Venn taclus. Mae'r cydrannau hyn yn creu un system gydlynol gyda'r amcan o sicrhau bod y Gogledd mewn safle da i ddarparu'r sgiliau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd economaidd sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus."*

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn ystyried yn ofalus y cysylltiadau â'r Cynlluniau Datblygu Lleol presennol, y Cynllun Datblygu Strategol sydd ar y gweill, ac mae'n cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynllunio defnydd tir a chreu lleoedd.

### Diwygio Bysiau/Masnachfreinio

5.3.4 Mae swyddogion o'r chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i adnabod rhwydwaith trawsnewid bysiau ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn ystyried y rhwydwaith a'r teithwyr presennol, wrth geisio creu rhwydwaith unedig o wasanaethau sy'n reddfol, yn hawdd i'w deall ac yn gydlynol.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu'r dyheadau ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Ngogledd Cymru, megis: Gwasanaethau ar ddydd Sul, oriau gweithredu hirach, gwell amlder, ac integreiddio â gwasanaethau eraill.

Mae'r cynlluniau ar gyfer teithio ar fysiau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y rhwydwaith bysiau arfaethedig ar draws Cymru yn y dyfodol, y mae Trafnidiaeth Cymru yn ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreinio bysiau. Bydd hyn yn galluogi rhwydweithiau bws i gael eu dylunio a'u gweithredu i dargedu anghenion lleol, e.e. ardaloedd amddifadedd enghreifftiol, a chwrdd ag anghenion cwsmeriaid yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle mae'r pwyslais yn aml ar gystadleuaeth ac ystyried bod llwybrau yn broffidiol. Bydd y newid hwn hefyd yn galluogi integreiddiad yr amserlennu a'r ticedu, gan wneud integreiddio yn haws. Bydd gwasanaethau bws yn cael eu cynllunio ac fe fanylir arnynt drwy'r cyfyngiadau cyllido sydd ar gael gan awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnig dull partneriaeth o sicrhau bod masnachfreinio yn darparu'r rhwydwaith gorau ar gyfer Gogledd Cymru, gan ymrwymo'r Cyd-bwyllgor ac awdurdodau lleol i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno masnachfreinio bysiau yng Ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, yr awdurdodau a gweithredwyr.

### Gwasanaeth Bws Cyflym Gogledd-De

5.3.5 Mae Trafnidiaeth Cymru yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer gwasanaeth bws cyflym newydd sy'n cysylltu asgwrn cefn gorllewinol Cymru o'r de i'r gogledd, a allai gael ei gyflwyno mor gynnar ag ail chwarter 2026. Gweler yma.

Byddai'r "TrawsCymru Express" sy'n derbyn cymhorthdal - fel y cyfeirir ato mewn astudiaeth dichonoldeb newydd ei rhyddhau a baratowyd gan Arup - yn cysylltu Bangor yng ngogledd-orllewin Cymru a Chaerfyrddin yn y de-orllewin. Mae Arup nawr yn cynnig achos busnes llawn gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun fel treial cyn etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2026.

Gallai'r daith 130 milltir gael ei gwneud mewn pedair awr 45 munud, gan dorri awr a hanner oddi ar y gwasanaeth bws presennol sy'n stopio'n aml, sef y T1/T2 gan TrawsCymru. Nid oes cyswllt rheilffordd uniongyrchol yn bodoli rhwng y ddau anheddiad ar hyn o bryd, gyda threnau posib drwy Amwythig yn cymryd chwe awr 20 munud. Y bwriad yw gwasanaethu saith tref ar y ffordd. Yr opsiwn a ffafrir yw wyth gwasanaeth y dydd bob ffordd, gyda theithiau'n cychwyn rhwng 0530 a 1930.
Mae'r adroddiad yn nodi y byddai angen i opsiynau caffael gyd-fynd â chynlluniau ar gyfer masnachfreinio bysiau, sydd i fod i gael eu cyflwyno o 2026-28.

Mae'r papur yn nodi uchelgeisiau i adfer gwasanaethau rheilffordd blaenorol ar hyd y coridor hwn ond mae'n ychwanegu bod adroddiad blaenorol a baratowyd gan WSP "wedi dod i'r casgliad y byddai cyflwyno cynlluniau o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer rheilffyrdd yn heriol iawn oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd a gofynion pellter cyffredinol". Mae Arup yn ystyried bod coetsis yn llawer rhatach.

Byddai'r TrawsCymru Express yn defnyddio arosfannau presennol ond hefyd rhan o'r cynllun yw gwelliannau i'r rheini, yn ogystal â chyfnewidfa drafnidiaeth newydd ym Machynlleth. Mae'r olaf yn cyd-fynd ag ymlyniad y cynllun i'r egwyddor o integreiddio â'r gwasanaethau rheilffyrdd presennol. Mae costau rhagamcanol, refeniw a chymorthdaliadau wedi cael eu dadansoddi'n llawn flwyddyn wrth flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r model disel ar gyfer blwyddyn nodweddiadol gyntaf 2027 - ar ôl y gwariant cychwynnol o £4.6 miliwn yn 2026 - yn dangos refeniw o £0.9 miliwn a chymhorthdal o £2 filiwn.

Nid oes cyfeiriad penodol at y cynllun yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft oherwydd ei fod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei gyflawni gan Trafnidiaeth Cymru, ac nid awdurdod lleol. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ei gynnwys fel pwynt cyfeirio yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a/neu'r Cynllun Cyflawni i ddylanwadu ar ei gyllid yn y dyfodol o ystyried pwysigrwydd cysylltedd rhwng y gogledd a'r de â'n rhanbarth.

### Cyfleuster gwynt alltraeth Porthladd Mostyn

5.3.6 Mae cynlluniau ar gyfer gwaith ehangu mawr ym Mhorthladd Mostyn yn Sir y Fflint wedi cael eu cymeradwyo. Mae disgwyl i'r prosiect greu 300 o swyddi newydd a chryfhau safle'r rhanbarth o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r prosiect cymeradwy yn cynnwys adeiladu cei 350 metr newydd ac adennill 13 erw o dir, gan alluogi'r porthladd i wneud lle i'r genhedlaeth nesaf o dyrbinau gwynt alltraeth arnofiol mwy. Disgwylir i'r gwaith paratoi ddechrau yn yr hydref, gyda'r cyfnod adeiladu yn creu 130 o swyddi a rhagwelir y bydd 300 o swyddi parhaol ychwanegol wrth i brosiectau fferm wynt newydd ddechrau yn 2027. Mae'r datblygiad hwn yn cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer y Porthladd fel y nodir yn ein polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n berthnasol i borthladdoedd a chludo nwyddau. Gweler erthygl i'r wasg i gael mwy o wybodaeth yma.

### Ymgyrch Twristiaeth Gogledd Cymru

5.3.7 Nod yr ymgyrch gan 'Dwristiaeth Gogledd Cymru' yw hyrwyddo twristiaeth werdd drwy leihau nifer y ceir ar y ffyrdd a gorlenwi mewn mannau poblogaidd adnabyddus yn ystod cyfnodau prysur. Mae wedi'i anelu at deithwyr o ddinasoedd a threfi sy'n defnyddio trenau sy'n cael eu

rhedeg gan Trafnidiaeth Cymru (TrC) ac Avanti West Coast. Bydd yn cysylltu â llwybrau bysiau a weithredir gan rwydwaith pellter hir TrawsCymru a'r gwasanaeth bws fflecsi 'book-a-ride' ar hyd llwybrau mwy lleol. Y syniad yw darparu gwasanaeth cyd-gysylltiedig fel y gall pobl gyrraedd eu cyrchfannau terfynol heb orfod gyrru yno.

Ymhlith y gwasanaethau bysiau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith trenau bydd rhai sy'n gweithredu o Wrecsam, Prestatyn, Betws y Coed, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog ac Abermaw. Pan fydd pobl yn cyrraedd gorsaf yng Ngogledd Cymru, mae wastad wedi bod yn her o ran sut fyddant yn cyrraedd rhai o'r prif atyniadau heb ddibynnu ar gar. Y darn coll yn y jig-so yw'r filltir olaf fel y'i gelwir, a dyna lle mae TrawsCymru a'r gwasanaeth bws fflecsi yn berthnasol fel y gall pobl gyrraedd eu cyrchfan olaf o lefydd allweddol, dethol. Ceir mwy o wybodaeth yma.

Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'n polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth a chysylltedd cynaliadwy, yn ogystal â phrosiect 'Anturiaethau Cyfrifol' Uchelgais Gogledd Cymru (gweler yma).

Parth Buddsoddi Wrecsam a Sir y Fflint

5.3.8 Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar Barth Buddsoddi Wrecsam a Sir y Fflint, wrth i fusnes FI Real Estate Management (FIREM) fuddsoddi mewn twf (gweler yma).

Mae'r parth buddsoddi yn brosiect cydweithredol y disgwylir iddo ddenu £1 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a chreu 6,000 o swyddi newydd. Mae'n cael ei gefnogi gan £160 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgynhyrchu uwch, gyda'r Parth Buddsoddi yn targedu 5.5 miliwn troedfedd sgwâr o gapasiti newydd ar gyfer y sector. Bydd pwyslais arbennig ar sgiliau arloesi a heriau trafnidiaeth, darparu cyfleoedd a buddsoddiad newydd i gymunedau a thyfu economïau lleol a rhanbarthol.

Yn ddiweddar, fe wnaeth cynlluniau ar gyfer y parth buddsoddi gymryd cam mawr ymlaen gyda'r cadarnhad o'i ffocws diwydiannol a'i brif safleoedd yn rhan o gyhoeddiad diweddar gan y Canghellor Rachel Reeves. Un o'r safleoedd hyn yw Stad Ddiwydiannol Wrecsam, sy'n gartref i ystod eang o fusnesau a chyflogwyr sylweddol, fel JCB. Mae tri o ddatblygiadau FIREM ar y stad, Wrecsam 1M, Wrecsam 152 a Bridgeway Centre, wedi'u lleoli o fewn y parth dynodedig. Mae'r cwmni'n ehangu ei bresenoldeb ar y stad yn sylweddol fel rhan o'i brosiect Wrecsam 1M, sy'n cynnwys miliwn troedfedd sgwâr o ofod logisteg, a fydd yn creu 1,000 o swyddi ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer twf yn y rhanbarth. Mae FIREM wedi buddsoddi mwy na £136 miliwn ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'n polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gysylltedd â'r Ardal Fuddsoddi, yn ogystal â phartneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru gyda'r ddau gyngor (gweler yma).

Mae'r Ardal Fuddsoddi yn rhoi cyfle posib i ddarparu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau mewn rhannau o Sir y Fflint a Wrecsam, ac i ddatblygu rhai cysylltiadau teithio llesol â Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Byddai hyn yn gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac yn ehangu'r farchnad lafur.

Cynlluniau i gyflwyno tocynnau bws wedi'u capio i bobl ifanc

5.3.9 Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno prisiau bysiau wedi'u capio ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru wedi cael eu canmol fel rhai 'a allai fod yn drawsnewidiol'. O fis Medi 2025, bydd

pobl ifanc 16 i 21 oed yng Nghymru yn elwa o docynnau bws sengl £1 a thocyn diwrnod diderfyn £3. Bydd y fenter yn rhedeg am flwyddyn academaidd lawn, gyda chefnogaeth buddsoddiad o £100 miliwn fel rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru. Gallai'r cynllun arwain at fanteision sylweddol gyda gweithrediadau tebyg yn cael eu gweld ledled Ewrop ac yn llwyddiant mawr. Mae rhagor o wybodaeth am y gyllideb ar gael yma.

I grynhoi, mae'r gyllideb hefyd yn darparu ar gyfer:

- £181.6m i wella gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd.
- £15m i ariannu cynllun tocyn bws sengl £1 i bobl ifanc o dan 21 oed.
- Cyllid i greu cynllun atgyweirio ffyrdd a phalmentydd awdurdodau lleol gwerth £120m.
- £25m ar gyfer cronfa gwella ffyrdd i wella'r rhwydwaith ffyrdd strategol a fydd yn ein galluogi i wella 100km o'r rhwydwaith a lleihau ac atal tyllau.

### Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

5.3.10 Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yng Ngogledd Cymru yn cynnwys traffyrdd a ffyrdd A mawr, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd â'r rheilffyrdd, mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltedd ehangach i Ogledd Cymru.

Uchelgais polisi TrC ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol yw:

*"Drwy gydweithio ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith ffyrdd strategol mwy effeithlon, integredig a gwydn. Bydd ffyrdd strategol effeithlon ac effeithiol yn galluogi pobl a nwyddau i symud yn rhwydd rhwng canolfannau cyflogaeth mawr, iechyd, addysg a chyfleusterau a seilwaith cymunedol arall. Bydd ein ffyrdd strategol yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau tywydd garw ac yn gwella bioamrywiaeth."*

Ategir yr uchelgais polisi gan ddyheadau ffordd strategol mwy penodol, sy'n cynnwys rhaglenni cynnal a chadw priffyrdd, capasiti a phrosiectau gwella diogelwch
ar draws ac sy'n cysylltu Gogledd Cymru, sef:

**Dyhead SRN 1**: Dylid cynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

**Dyhead SRN 2**: Dylid amnewid Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 er mwyn sicrhau dibynadwyedd parhaus symudiadau traws-ffiniol hanfodol.

**Dyhead SRN 3**: Dylid adolygu'r achos dros gyflwyno detholiad o gynlluniau priffyrdd strategol a oedwyd, yn enwedig lle gall y rhain ddarparu buddion ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Y llwybrau â blaenoriaeth yw'r A494/A55/Coridor Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam.

**Dyhead SRN 4**: Dylid bwrw ymlaen â'r achos am drydydd Croesfan dros y Fenai. Gallai hyn wella dibynadwyedd amser siwrne, gwella capasiti, darparu gwell cyfleusterau i ddefnyddwyr dulliau cynaliadwy.

**Dyhead SRN 5**: Dylid bwrw ymlaen â mesurau fydd yn gwella gwytnwch Croesiadau'r Fenai.

Rheilffyrdd

5.3.11 Nid yw'r isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatganoli, sy'n golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw drwy Network Rail. Mae lefelau gwasanaeth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, a'r Adran Drafnidiaeth, gan weithio gyda'r Cwmnïau Gweithredu Trenau (Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast ar hyn o bryd).

Mae Cwmnïau Gweithredu Cludo Llwythi yn gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, sy'n golygu bod gwasanaethau cludo llwythi yn cael eu harwain yn fasnachol. Darperir y trac ar gyfer cludo teithwyr a llwythi ar y rheilffyrdd gan Network Rail, gyda rheoliadau gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

Golyga hyn nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau neu isadeiledd rheilffyrdd, felly nid oes polisïau penodol yn y Cynllun hwn, na chynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer gwell cysylltedd ledled Gogledd Cymru a thu hwnt.

Uchelgais polisi TrC ar gyfer rheilffyrdd yw:

*"Drwy gydweithio â Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith rheilffyrdd mwy effeithlon, integredig sy'n canolbwyntio ar deithwyr. Bydd gwasanaethau rheilffyrdd effeithlon ac effeithiol yn caniatáu i bobl a nwyddau symud o ddrws i ddrws yn hawdd trwy wasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon."*

Ategir yr uchelgais polisi hwn gan ddyheadau rheilffyrdd mwy penodol, sy'n cynnwys gwasanaethau rheilffyrdd a rhaglenni a phrosiectau gorsafoedd ar draws ac sy'n cysylltu Gogledd Cymru, sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

**Dyhead Rheilffordd 1**: Bydd cysylltiadau rheilffordd i gyrchfannau allweddol gan gynnwys Llundain Euston, Manceinion (a'i faes awyr), Lerpwl (a'i faes awyr), Caerdydd, Birmingham (a'i faes awyr), Crewe (ar gyfer cysylltiadau pellach), a Warrington (ar gyfer cysylltiad yn y dyfodol â Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd) yn cael eu cynnal a'u gwella.

**Dyhead Rheilffordd 2**: Y lefel gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru yw pum trên yr awr gan gynnwys gwasanaeth cyflym.

**Dyhead Rheilffordd 3**: Dylid gwneud gwelliannau yng Ngorsaf Caer a fydd yn caniatáu gweithredu lefelau gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru.

**Dyhead Rheilffordd 4**: Dylid gwneud gwelliannau seilwaith Prif Lein Gogledd Cymru a fydd yn galluogi gweithredu pum trên yr awr a lleihau amseroedd teithio, gan flaenoriaethu'r rhannau rhwng Crewe a Chyffordd Llandudno.

**Dyhead Rheilffordd 5**: Dylid rhoi blaenoriaeth i welliannau isadeiledd ar Lein y Gororau, gan gynnwys dileu'r cyfyngiad capasiti rheilffordd yng Ngwaith Sment Padeswood, er mwyn caniatáu lefelau gwasanaeth o bedwar trên yr awr, gan gynnwys dau yn uniongyrchol i Lerpwl.

**Dyhead Rheilffordd 6**: Dylid gwella Gorsaf Shotton i greu cyfnewidfa o ansawdd uchel a hollol hygyrch rhwng Lein y Gororau a Phrif Lein Gogledd Cymru gyda theithio llesol da a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

**Dyhead Rheilffordd 7**: Dylid bwrw ymlaen â mynediad newydd a gwell at wasanaethau rheilffordd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar Lein y Gororau gyda theithio llesol ategol a mynediad trafnidiaeth gyhoeddus i'r orsaf.

**Dyhead Rheilffordd 8**: Dylid mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti ar lein Amwythig – Wrecsam – Caer er mwyn sicrhau bod dau drên yr awr yn aml, yn ogystal ag amseroedd teithio llai lle bo hynny'n bosibl.

**Dyhead Rheilffordd 9**: Dylid ystyried gwelliannau capasiti leiniau, amlder gwasanaeth uwch a gwella capasiti trenau ar Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambrian, gyda chymorth mesurau bysiau cyflenwol.

## 6.1. RHEOLI PERFFORMIAD

6.1.1. Ar hyn o bryd, mae gwaith casglu adnoddau'r Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cael ei oruchwylio gan Arweinydd Gweithredu Rhaglen y Cyd-bwyllgor, gwasanaethau ymgynghori ARUP ar gyfer yr holl faterion technegol trafnidiaeth, gyda chefnogaeth ymgysylltu agos a mewnbwn hanfodol gan ran-ddeiliaid allweddol gan gynnwys arweinydd TrC Gogledd Cymru, ein Swyddogion Trafnidiaeth Awdurdod Lleol.

6.1.2 Ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad i'r Cyd-bwyllgor, bydd gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro y gallu i ddechrau'r broses o recriwtio arbenigedd cynllunio trafnidiaeth. Bydd hyn yn darparu adnoddau technegol rhanbarthol ar lefel polisi i'r Cyd-bwyllgor ryngweithio â'n holl ran-ddeiliaid allweddol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bydd y cyfnod pontio hwn yn digwydd, bydd y Cyd-bwyllgor yn y tymor byr yn gofyn am wasanaethau ymgynghori sy'n cael eu hariannu a'u cefnogi drwy drefniadau ariannu grant Llywodraeth Cymru.

6.1.3 Darperir cefnogaeth o ran system y pwyllgor a llywodraethu ar hyn o bryd drwy adnoddau dros dro sy'n darparu cefnogaeth i Aelodau a swyddogion. Mae hyn wedi sicrhau bod yr is-bwyllgor wedi'i sefydlu'n gywir, bod yna Aelodau cyfetholedig, cylch gorchwyl, cynlluniau gwaith wedi'u mabwysiadu a rhaglenni wedi'u cyhoeddi. Ar ôl y trosglwyddiad, bydd y rolau hyn yn cael eu hadolygu a'u recriwtio fel bo'n briodol gyda swyddogion parhaol.

6.1.4 Adnodd allweddol yw'r rhwydwaith swyddogion sy'n darparu'r arbenigedd a'r wybodaeth broffesiynol i gefnogi Aelodau a'u priod Awdurdodau i reoli gwaith yr is-bwyllgor. Swyddogion yw'r cyswllt hanfodol rhwng y materion hynny sy'n gyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor a'u deiliaid portffolio Aelod, Swyddogion Gweithredol a chraffu priodol. Cefnogir yr is-bwyllgor gan grŵp ymgynghori swyddogion sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n cael ei arwain gan swyddog arweiniol o'r Awdurdod a gynrychiolir drwy Gadeirydd yr is-bwyllgor. Mae'r grŵp ymgynghorol hwn yn cynnwys mewnbwn gan ARUP, Trafnidiaeth Cymru a rhan-ddeiliaid eraill yn ôl yr angen.

7.1. PERFFORMIAD ARIANNOL

7.1.1 Mae gwariant ariannol hyd yma wedi bod drwy gyllid grant yn bennaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r gwariant yn £193,170 ac wedi'i ddefnyddio i gomisiynu ARUP i ddarparu cymorth technegol a chyflawni ers dechrau 2024 ar gyfer pob elfen o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

7.1.2 Ar hyn o bryd, mae'r Cyd-bwyllgor mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau dyraniadau cyllid ar gyfer 2025/26. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.

Grantiau Moderneiddio – 2026/27

7.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyfuno'r wyth grant trafnidiaeth awdurdod lleol gwahanol presennol yn un ffynhonnell ariannu unigol, a fydd yn cael ei dyrannu ar draws y rhanbarthau. Bydd y Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu sut y dylid gwario'r cyllid hwn ar gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ni fydd hyn yn arwain at lai o gyllid ar gael i awdurdodau lleol. Mae'r ymarferiad hwn yn ymwneud â sut rydym yn sicrhau bod cyllid yn cael ei wario mewn ffordd fwy strategol a chyd-gysylltiedig. Mae hefyd yn gyfle i leihau'r gwaith papur a'r fiwrocratiaeth o amgylch y cyllid.

Nod Llywodraeth Cymru yw rhoi fformiwla ar waith i benderfynu faint o gyllid y mae pob rhanbarth yn ei gael. Cyfarfu'r aelodau â'r CSNWT ar 11 Mawrth a thrafod yr angen i sicrhau bod fformiwla yn deg i bob rhanbarth, gan gynnwys sicrhau ei fod yn cydnabod anghenion cymunedau gwledig. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno i weithdy yn y dyfodol i drafod opsiynau fformiwla yn fanwl. Nodwyd y pwynt yn gryf gan awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig bod angen i Lywodraeth Cymru ganiatáu cyllid aml-flwyddyn. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n gydnaws â'r ansicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wynebu ynglŷn â'i gyllidebau ei hun yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r CSNWT wedi nodi ei barodrwydd i archwilio sut y gallwn roi cymaint o sicrwydd â phosibl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac Awdurdodau Lleol.

Rhagwelir cyfarfodydd pellach rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a Llywodraeth Cymru a bydd diweddariadau yn cael eu darparu unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

9.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad chwarterol gael ei gyflwyno i'r is-bwyllgor i fynd i'r afael â'i gyfrifoldebau a'i swyddogaethau."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Gallaf gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol a gynhwysir yn yr adroddiad. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Eitem 6

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

31 Mawrth, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad cynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a'r berthynas gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC<br>Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ar y cynnydd o ran paratoi Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol (CDS) yn ogystal â thynnu sylw at natur eang y berthynas rhwng y RTP a'r CDS.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd gyda'r CDS o gyfnod cynnar, i hyrwyddo ymgysylltiad rheolaidd ac ymagwedd integredig at gynllunio strategol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Gosodwyd dyletswyddau statudol ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ymwneud â lles economaidd rhanbarthol, cynllunio gofodol, a chynllunio trafnidiaeth.

4.2. Y nod yw hyrwyddo gweithio rhanbarthol cydweithredol i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol i gymunedau drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a'r isadeiledd cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr, sy'n cyd-fynd yn dynn ag uchelgeisiau datblygu economaidd a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth.

4.3. O ran cynllunio gofodol, mae'r ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a Chynllun Datblygu Strategol wedi'i nodi yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Wedi hynny fe wnaed Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, sy'n galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi CDS. Cyhoeddwyd Llawlyfr drafft CDS i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn yr hydref 2022, a disgwylir y caiff ei gwblhau yng ngwanwyn 2025. Mae'r Llawlyfr drafft yn rhoi arweiniad ar amserlenni lefel-uchel ar gyfer cynhyrchu CDS ac mae'n fanwl ac yn rhagnodol, gan ddisgwyl y byddai'n cymryd pum mlynedd i gynhyrchu CDS.


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.4. Ni ragwelir felly y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu tan 2030 ar y cynharaf, ac yn y cyfamser mae'n rhaid cadw'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyfredol, gan sicrhau, er enghraifft, y gall buddsoddiad a datblygu cynaliadwy barhau i ddigwydd mewn ffordd a arweinir gan Gynllun, gan roi hyder i'r holl ran-ddeiliaid gan gynnwys buddsoddwyr, datblygwyr a chymunedau.

4.5. I gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, cafodd swyddog priodol o rwydwaith Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ei recriwtio i fod yn Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol (Cyd-bwyllgor Corfforedig) ar gyfer cynllunio gofodol rhanbarthol. Mae hyn yn sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer buddiannau'r awdurdodau lleol a buddiannau rhanbarthol, yn gysylltiedig ag arbenigedd pwnc. Cychwynnodd secondiad gyda CBC y Gogledd yn y rôl hon ym mis Ionawr 2025, ar sail rhannu amser i ddechrau ond bydd yn llawn amser o 1 Ebrill 2025.

## 5. CYNNYDD GYDA'R CDS

5.1. I ddechrau, bydd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o baratoi'r cynllun rhaglen a'r Cytundeb Cyflawni (DA), sy'n ddatganiad cyhoeddus sy'n cynnwys y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol (CIS) sy'n nodi sut a phryd y gall rhan-ddeiliaid a'r gymuned fod yn rhan o'r broses o lunio'r Cynllun ac amserlen (Rheoliad 10) ar gyfer paratoi'r CDS - Rheoliad 11 (1). Byddant yn dadansoddi gofynion y CDS ac yn cysylltu ar draws pob grŵp rhan-ddeiliaid, gan gydweithio i gynhyrchu'r CDS.

5.2. Dyma'r amserlen ddangosol ar gyfer y gwaith hwn:

1. Y CBC i Awdurdodi paratoi DA – Ionawr 2025
2. Paratoi DA drafft ac ymgynghori'n anffurfiol gydag ymgyngoreion allweddol – Chwefror-Mawrth 2025
3. Adolygu'r DA drafft (os oes angen) – Ebrill 2025
4. Ymgynghori'n ffurfiol ar y DA – Mai-Mehefin 2025
5. Y CBC i fabwysiadu'r DA yn ffurfiol – Gorffennaf 2025
6. Cyflwyno'r DA mabwysiedig i Lywodraeth Cymru – Gorffennaf-Awst 2025
7. Cyhoeddi'r DA ar y wefan a hysbysu'r holl ran-ddeiliaid yn ffurfiol – cyn gynted â phosib yn dilyn cymeradwyaeth LlC

## 6. Y BERTHYNAS RHWNG Y CDS A'R RTP

6.1. Oherwydd y cylch gwaith economaidd, trafnidiaeth a defnydd tir (sydd oll yn plethu â'i gilydd) a roddwyd i'r CBC, mae cyfle gwirioneddol i gyfannu'r holl elfennau hyn yn y modd mae'n cynllunio ar gyfer twf, buddsoddiad, symudiad a darpariaeth isadeiledd. Mae hefyd yn fuddiol bod un cydran o'r dull strategol integredig hwn yn gwneud camau bras at fod mewn lle, wrth i'r RTP fynd drwy ei gam ymgynghori â'r cyhoedd a rhan-ddeiliaid. Mae hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol i lywio datblygiad y CDS ac yn ei dro gall hyn siapio sut caiff y RTP ei fonitro a'i ddiweddaru yn y dyfodol. I grynhoi:

- Gall y CDS helpu drwy siapio'r patrwm datblygu, lleihau'r angen i deithio rhwng defnyddiau tir allweddol, ac ymgorffori strategaethau trafnidiaeth rhyng-foddol yn well mewn penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir, er mwyn galluogi pobl i wneud dewisiadau teithio mwy gwybodus a chynaliadwy;
- Mae cynllun strategol effeithiol hefyd yn gwerthu stori hirdymor a gweledigaeth uchelgeisiol a gefnogir gan egwyddorion cryf, lle mae polisïau a phrosiectau wedi'u

hintegreiddio'n well ac yn cyd-fynd â'i gilydd yn well, gan ganiatáu sicrhau cefnogaeth y cyhoedd a'r llywodraeth;

- Manteision eraill o fabwysiadu dull integredig cydweithredol ar gyfer cynllunio defnydd tir strategol a chynllunio trafnidiaeth yw'r gallu gwell i gyflawni prosiectau trawsnewidiol a blaenoriaethau cenedlaethol, y potensial i gyfuno gwybodaeth ac arbenigedd, cronni adnoddau i gyflawni effeithlonrwydd, a'r gallu i hyrwyddo ymgysylltiad cynnar er mwyn adnabod blaenoriaethau a rennir.

6.2. Unwaith y bydd Cytundeb Cyflawni y CDS wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd y gwaith ar y CDS yn dechrau'n ffurfiol a gellir datblygu'r dull integredig y cyfeirir ato uchod ymhellach wrth i'r cynllun fwrw ymlaen.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae rheoliad 11 o'r Rheoliadau CDS yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC gynhyrchu Cytundeb Cyflawni i lywio'r gwaith o greu'r cynllun.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n croesawu'r adroddiad cynnydd hwn mewn perthynas ag un o swyddogaethau statudol allweddol y CJC. Mae'n cyflwyno amserlen glir i fynd â'r broses ymlaen"

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol ychwanegol. Mae cyllideb ar waith i ariannu'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol."